
Diogelu'r rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni teledu a radio

DATGANIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 18 Rhagfyr 2020

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Cefndir	4

1. Trosolwg

- 1.1 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Ofcom wedi gweld cynnydd cyson yn nifer y cwynion am iechyd meddwl a lles y rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni, gan adlewyrchu'r ffaith fod cymdeithas yn fwyfwy agored a phryderus ynghylch y materion hyn. Yn 2019, fe wnaethom lansio adolygiad o'n mesurau diogelu ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni. Dyma oedd yr amcanion:
- sicrhau bod lles y bobl sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni teledu a radio yn cael ei ddiogelu;
 - sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu diogelu rhag tramgwydd heb gyd-destun sy'n gallu codi o weld neu glywed cyfranogwyr agored i niwed mewn rhaglenni lle nad yw eu lles wedi cael eu diogelu o bosibl yn eu barn nhw.
- 1.2 Fel rhan o'r adolygiad hwn, roeddem yn cynnig diwygio'r Cod Darlledu ("y Cod") i gyflwyno darpariaethau newydd sydd wedi'u targedu at gyflawni'r amcanion hyn mewn ffordd hyblyg a chymesur. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein Penderfyniad yn dilyn ein hymgyngoriadau ar 29 Gorffennaf 2019 ("yr ymgynghoriad cyntaf")¹ a 13 Mawrth 2020 ("yr ail ymgynghoriad").²
- 1.3 Cawsom gefnogaeth eang gan randdeiliaid i'n bwriad i gyflwyno mesurau diogelu ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni. Ar ôl ystyried yr holl ymatebion i'r ddau ymgynghoriad yn ofalus, rydym wedi penderfynu diwygio Adran Saith o'r Cod i gyflwyno dau *Arfer i'w Dilyn* newydd er mwyn sicrhau bod darlledwyr yn cymryd gofal priodol o bobl a allai fod mewn perygl o niwed sylweddol oherwydd eu bod yn cymryd rhan mewn rhaglenni.
- 1.4 Rydym hefyd wedi diwygio Rheol 2.3 yn Adran Dau (Niwed a Thramgwydd) o'r Cod i'w gwneud yn glir bod y rheol hefyd yn diogelu cynulleidfaoedd rhag unrhyw dramgwydd posibl sy'n codi o weld triniaeth pobl sy'n ymddangos eu bod mewn perygl o niwed sylweddol o ganlyniad i'w cyfranogiad mewn rhaglenni, lle nad oes cyd-destun digonol.
- 1.5 Yn dilyn yr ymatebion a gawsom i'n hymgyngoriad cyntaf, rydym hefyd wedi gwneud mân ddiwygiadau i eiriad Rheolau 1.28 a 1.29, sy'n ymwneud â gofal dyladwy y rhai dan ddeunaw oed.

¹ [Diogelu'r rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni teledu a radio](#) (cyhoeddwyd ar 29 Gorffennaf 2019)

² [Ail ymgynghoriad Ofcom ar Ddiogelu'r rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni teledu a radio](#) (cyhoeddwyd ar 13 Mawrth 2020)

Yr hyn rydym wedi'i benderfynu – y darpariaethau newydd yn gryno

Adran Saith

Mae'r mesur canlynol wedi cael ei ychwanegu at Arfer 7.3 y Cod ar gydsyniad gwybodus:

Os gwahoddir rhywun i gyfrannu at raglen (heblaw pan yw'r deunydd yn ddibwys neu'r rhan y mae'n ei chymryd ynddi'n fach) dylid gwneud y canlynol fel arfer ar adeg briodol, yn ogystal â'r mesurau eraill a nodir eisoes yn Arfer 7.3:

....

- ei hysbysu am risgiau posibl sy'n codi o'i gyfranogiad yn y rhaglen a allai effeithio ar ei les (i'r graddau y gellir rhagweld y rhain yn rhesymol ar y pryd) ac unrhyw gamau y mae'r darlledwr a/neu wneuthurwr y rhaglen yn bwriadu eu cymryd i liniaru'r rhain.

....

Mae'r Arfer i'w Ddilyn 7.15 wedi cael ei ychwanegu:

Dylai darlledwyr gymryd gofal dyladwy dros les cyfrannwr a allai fod mewn perygl o niwed sylweddol o ganlyniad i'w gyfranogiad mewn rhaglen, heblaw pan yw'r deunydd yn ddibwys neu'r rhan y mae'n ei chymryd ynddi'n fach.

Gellid ystyried bod cyfrannwr mewn perygl o niwed sylweddol o ganlyniad i'w gyfranogiad mewn rhaglen am resymau sy'n cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- ei fod yn cael ei ystyried yn berson agored i niwed;
- nad yw wedi arfer bod yn llygad y cyhoedd;
- bod y rhaglen yn golygu cael ei ffilmio mewn amgylchedd artiffisial neu wneuthuredig;
- mae'r rhaglen yn debygol o ddenu lefel uchel o sylw gan y wasg, y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol;
- mae elfennau golygyddol allweddol y rhaglen yn cynnwys gwrthdaro posibl, anghydfod, sefyllfaoedd sy'n heriol yn emosiynol;
- mae'r rhaglen yn gofyn iddynt drafod, datgelu neu ymwneud ag agweddau sensitif sy'n newid eu bywydau neu agweddau preifat ar eu bywydau.

Ystyr "person agored i niwed": I gael ystyr "agored i niwed", gweler Arferion 8.21 ac 8.22 mewn perthynas â "phobl agored i niwed".

Dylai darlledwyr gynnal asesiad risg i ganfod unrhyw risg o niwed sylweddol i'r cyfrannwr, oni bai fod cyfiawnhad dros beidio â gwneud hynny er budd y cyhoedd.

Bydd lefel y gofal sy'n ddyledus i'r cyfrannwr yn gymesur â lefel y risg sy'n gysylltiedig â'i gyfranogiad yn y rhaglen.

Gweler "arferion i'w dilyn" 7.3, 8.21 ac 8.22)

Adran Dau

Mae Rheol 2.3 wedi'i ddiwygio i gynnwys y geiriad mewn print trwm, fel a ganlyn:

“Wrth gymhwyso safonau a dderbynnir yn gyffredinol, rhaid i ddarlledwyr sicrhau bod deunydd a allai achosi tramgwydd wedi’i gyfiawnhau gan y cyd-destun (gweler ystyr “cyd-destun” isod). Gall deunydd o’r fath gynnwys y canlynol ond heb ei gyfyngu iddynt: iaith dramgwyddus, trais, rhyw, trais rhywiol, difrïo, gofid, amharu ar urddas pobl, iaith neu driniaeth wahaniaethol (er enghraifft, ar sail oed, anabled, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, a phriodas a phartneriaeth sifil), **a thriniaeth pobl yr ymddangosir eu bod yn cael eu rhoi mewn perygl o niwed sylweddol o ganlyniad i’w cyfranogiad mewn rhaglen**. Dylid hefyd ddarlledu gwybodaeth briodol os byddai o gymorth i osgoi neu leihau tramgwydd.”

Adran Un

Mae Rheolau 1.28 a 1.29 wedi cael eu diwygio i gynnwys y geiriad mewn print trwm ac i ddileu’r geiriau y mae llinell drwyddynt, fel a ganlyn:

Rheol 1.28: “Rhaid gofalu’n briodol am **les corfforol ac emosiynol** ac urddas pobl dan ddeunaw oed sy’n cymryd rhan neu’n cael eu cynnwys fel arall mewn rhaglenni. Rhaid gwneud hyn heb ystyried unrhyw ganiatâd a roddwyd gan yr un sy’n cymryd rhan neu gan riant, gwarcheidwad neu gan unigolyn arall sydd dros ddeunaw oed yn lle riant.”

Rheol 1.29: “Rhaid peidio ag achosi gofid neu bryder **diangen digyfiawnhad** i bobl dan ddeunaw oed drwy eu cynnwys mewn rhaglenni neu drwy ddarlledu’r rhaglenni hynny.”

2. Cefndir

Beth a gynigiwyd gennym a pham?

2.1 Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyntaf, fe wnaeth Ofcom ailystyried ei ddull gweithredu a gofyn am ragor o safbwyntiau ar gynigion newydd i ddiogelu cyfranogwyr mewn rhaglenni mewn ail ymgynghoriad. Yn yr ail ymgynghoriad roeddem yn cynnig, yn Adran Saith (Tegwch) o'r Cod, diwygiad i arfer i'w ddilyn 7.3 ac arfer i'w ddilyn newydd, 7.15. Rydym yn rhoi'r cynigion hyn ar waith gyda rhai diwygiadau. Yn Adran Dau (Niwed a Thramgwydd) o'r Cod, roeddem yn cynnig ychwanegu Rheol 2.17 newydd. Ni fyddwn yn cyflwyno Rheol 2.17 newydd mwyach ac yn hytrach, byddwn yn diwygio'r Rheol 2.3 bresennol.

Diwygiadau arfaethedig i Adran Saith

2.2 Mae Adran Saith o'r Cod eisoes yn darparu fframwaith rheoleiddio clir ar gyfer cyfranogwyr sy'n dymuno mynegi pryderon am eu triniaeth mewn rhaglenni. Mae gan y rhan fwyaf o ddarlledwyr a gwneuthurwyr rhaglenni ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r hyn y mae'n ei olygu i drin cyfranogwyr rhaglenni'n deg, gan gynnwys cael cydsyniad gwybodus.

2.3 Roeddem yn cynnig ymestyn yr arferion canlynol er mwyn cyflwyno:

- mesur ychwanegol at Arfer 7.3, sy'n nodi'r camau dylai darlledwyr eu cymryd i gael 'cydsyniad gwybodus'. Bwriad ein cynnig oedd egluro y dylai cael cydsyniad gwybodus olygu hysbysu'r rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni am unrhyw niwed neu effeithiau negyddol posibl (i'r graddau y gellir rhagweld y rhain yn rhesymol ar y pryd), ac am unrhyw gamau y mae darlledwyr a/neu wneuthurwyr rhaglenni yn bwriadu eu cymryd i liniaru'r rhain. Mae Arfer 7.3 eisoes yn nodi'n glir nad oes angen cydsyniad gwybodus fel arfer pan yw'r deunydd yn ddibwys neu'r rhan y mae'n ei chymryd ynddi'n fach, neu pan fo cyfiawnhad i'r darlledwr fwrw ymlaen heb ei gael, ac nid oedd ein cynigion yn bwriadu newid hyn;
- ychwanegu arfer newydd – Arfer 7.15 – sy'n mynnu bod darlledwyr yn sicrhau bod gofal dyladwy yn cael ei roi i “bobl agored i niwed” ac i'r rhai sydd mewn perygl o niwed o ganlyniad i'w cyfranogiad mewn rhaglen. Byddai sicrhau gofal dyladwy yn golygu bod yn rhaid i ddarlledwyr ystyried: amgylchiadau'r unigolyn; natur ei gyfraniad; a natur a genre'r rhaglen.

2.4 Byddai'r broses ar gyfer gwneud cwyn ac ystyried a dyfarnu ynghylch y gŵyn honno yn dilyn *Gweithdrefnau Ofcom ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a Phreifatrwydd*³. Pan fydd Ofcom yn ystyried cwyn Tegwch a/neu Breifatrwydd, bydd Ofcom yn gweithredu fel dyfarnwr y gŵyn rhwng yr unigolyn a'r darlledwr, lle rhoddir statws cyfartal i'r ddau.

Yn yr un modd â gweddi Adran Saith o'r Cod, dim ond “y sawl yr effeithir arno”, neu

³ [*Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a Phreifatrwydd*](#)

rywun sydd ag awdurdod i gwyno ar ei ran, fyddai'n gallu gwneud cwyn am driniaeth annheg sy'n ymwneud â'r mesur ychwanegol arfaethedig yn Arfer 7.3 a'r Arfer 7.15 newydd.

Diwygiad arfaethedig i Adran Dau

2.5 Yn yr ail ymgynghoriad, roeddem hefyd wedi cynnig rheol ychwanegol newydd (Rheol 2.17) yn Adran Dau o'r Cod. Roedd Ofcom yn credu bod angen diogelu cynulleidfaoedd rhag niwed a/neu dramgwydd posibl sy'n deillio o ddiffyg (neu ddiffyg cydnabyddedig) gofal dyladwy i bobl agored i niwed, ac i'r rhai a allai gael eu rhoi mewn perygl o niwed o ganlyniad i'w cyfranogiad mewn rhaglen. Nod y gofyniad newydd arfaethedig oedd galluogi gwylwyr neu wrandawyr sy'n dymuno cwyno am ddiffyg gofal priodol i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y rhaglen. Byddai unrhyw gwynion sy'n codi o dan Reol 2.17 yn cael sylw o dan *Weithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio*⁴.

Beth ydym wedi'i benderfynu?

2.6 Cawsom 15 ymateb gan randdeiliaid i'r ail ymgynghoriad, sef: y BBC; Cymdeithas Seicolegol Prydain; Channel 4; Directors UK; Endemol Shine; Global; ITN; ITV; PACT; Autonomous Non-Profit Organisation (ANO) TV Novosti ("TV Novosti"); Sky News; y Gymdeithads Awduron; ViacomCBS Networks (Channel 5); Wireless Group; a chyfreithwyr Leigh Day ar ran teulu Steve Dymond⁵.

2.7 Ar ôl ystyried yn ofalus yr holl sylwadau a gafwyd gan randdeiliaid, rydym wedi gwneud y penderfyniadau canlynol:

- Rydym wedi diwygio Arfer 7.3 ac wedi ychwanegu Arfer 7.15 at y Cod, fel y cynigiwyd yn yr ail ymgynghoriad, gyda rhai mân newidiadau i'r geiriad i fynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd gan randdeiliaid. Rydym yn esbonio'r geiriad terfynol mewn rhagor o fanylder yn Adran 3 o'r ddogfen hon.
- Rydym wedi penderfynu peidio â chyflwyno Rheol 2.17 newydd i Adran Dau o'r Cod. Yn hytrach, ac yng ngoleuni sylwadau gan randdeiliaid, rydym wedi diwygio Rheol 2.3⁶ sy'n delio â thramgwydd, er mwyn ei gwneud yn glir bod y rheol yn berthnasol i dramgwydd posibl sy'n deillio o driniaeth y rhai yr ymddangosir eu bod mewn perygl o niwed sylweddol o ganlyniad i'w cyfranogiad mewn rhaglen.
- Oherwydd y gefnogaeth a fynegwyd gan y rhanddeiliaid hynny a fynegodd farn mewn ymateb i'r cynigion a wnaethom yn yr ymgynghoriad cyntaf, rydym wedi gwneud y mân ddiwygiadau roeddem wedi'u cynnig i eiriad y darpariaethau diogelu plant (Rheolau 1.28 a 1.29).
- Fel yr ydym yn ei esbonio isod, bydd y darpariaethau newydd yn y Cod yn dod i rym ddydd Llun 5 Ebrill 2021. Erbyn y dyddiad hwnnw, byddwn yn cyhoeddi Canllawiau

⁴ [*Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio*](#)

⁵ Roedd Steve Dymond yn gyfranogwr ar bennod o *The Jeremy Kyle Show* a fu farw ym mis Mai 2019. Ni chafodd y bennod a oedd yn cynnwys Mr Dymond ei darlledu.

⁶ Mae Rheol 2.3 yn datgan: "Wrth gymhwyso safonau a dderbynnir yn gyffredinol, rhaid i ddarlledwyr sicrhau bod deunydd a allai achosi tramgwydd wedi'i gyfiawnhau gan y cyd-destun...".

ategol sy'n seiliedig ar bwyntiau a godwyd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad cyntaf a'r ail ymgynghoriad, a'r cyfarfodydd amrywiol yr ydym wedi'u cynnal gyda rhanddeiliaid yn ystod y broses ymgynghori.

- 2.8 Mae Ofcom wedi ystyried barn darlledwyr a phartion eraill sydd â diddordeb yn ofalus. Yn benodol, rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod ein cynigion yn gymesur ac wedi'u fframio'n briodol er mwyn osgoi unrhyw effeithiau negyddol posibl ar wneuthurwyr rhaglenni, fel atal newyddion a materion cyfoes neu atal gwneuthurwyr rhaglenni rhag castio pobl a allai fod angen mwy o ofal (er enghraifft, pobl â phroblemau iechyd meddwl cymhleth). Nid bwriad Ofcom yw rhwystro gwneuthurwyr rhaglenni na dal darlledwyr yn atebol am ddigwyddiadau y tu hwnt i'w rheolaeth. Ar yr un pryd, mae Ofcom hefyd yn ymwybodol o'i ddyletswyddau statudol o ran sicrhau diogelwch priodol a chymesur i aelodau o'r cyhoedd rhag cynnwys deunydd tramgwyddus a niweidiol, a natur fregus y rhai y gallai eu hamgylchiadau olygu bod angen diogelwch arbennig arnynt.

Beth yw'r Camau nesaf?

- 2.9 Byddwn yn cyflwyno Canllawiau i'r Cod mewn perthynas â'r mesur newydd yn Arfer 7.3 a'r Arfer 7.15 newydd, fel rhan o'r Canllawiau presennol ar Adran Saith o'r Cod⁷.
- 2.10 Wrth ddrafftio'r Canllawiau ychwanegol, byddwn yn ystyried yr awgrymiadau a'r enghreifftiau o'r arferion gorau sydd eisoes wedi'u darparu gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyntaf a'r ail ymgynghoriad. Byddwn hefyd yn gofyn am sylwadau pellach gan y sefydliadau a ymatebodd i'n hymgyngoriadau. Er mwyn rhoi amser i ni ddrafftio'r Canllawiau ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, ein bwriad yw cyhoeddi'r Canllawiau yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth 2021.
- 2.11 Rydym yn cydnabod bod angen amser ar wneuthurwyr rhaglenni i ddiwygio eu prosesau cydymffurfio yn unol â'r newidiadau hyn. Felly, bydd y diwygiadau i Adran Saith a'r mân ddiwygiad i eiriad Rheol 2.3 yn Adran Dau **yn dod i rym ddydd Llun 5 Ebrill 2021**.
- 2.12 Fodd bynnag, mae Ofcom hefyd yn cydnabod bod pob cynhyrchiad yn wahanol ac efallai y bydd rhaglenni yn cael eu cynhyrchu nawr na fyddant yn cael eu darlledu tan ar ôl i'r diwygiadau ddod i rym. Felly, wrth asesu cwynion fesul achos yn y dyfodol, byddwn yn ystyried bod y darpariaethau newydd yn berthnasol i raglenni sy'n dechrau cynhyrchu ar neu ar ôl dydd Llun 5 Ebrill 2021.

⁷ [Nodiadau Arweiniad Adran 7: Tegwch](#) (Saesneg yn unig)